

Newidiadau arfaethedig i'r broses adnewyddu ar gyfer Cofrestrau Achrededig

Papur ymgynghori

Mai 2017

Ynglŷn â'r Awdurdod Safonau Proffesiynol

Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol¹ yn hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd trwy godi safonau rheoleiddio a chofrestriad gwirfoddol pobl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal. Rydym yn gorff annibynnol, sy'n atebol i Senedd y Deyrnas Unedig.

Rydym yn goruchwyllo gwaith nawr corff statudol sy'n rheoleiddio gweithwyr iechyd yn y Deyrnas Unedig a gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr. Rydym yn adolygu perfformiad y rheolyddion ac yn archwilio a chraffu ar eu penderfyniadau am a yw pobl ar eu cofrestrau yn addas i ymarfer.

Rydym hefyd yn gosod safonau ar gyfer sefydliadau sy'n cynnal cofrestrau gwirfoddol o bobl mewn galwedigaethau iechyd a gofal heb eu rheoleiddio, ac yn achredu'r sefydliadau sy'n bodloni'n safonau.

I annog gwelliannau, rydym yn rhannu arfer da a gwybodaeth, yn cyflawni ymchwil ac yn cyflwyno syniadau newydd yn cynnwys ein cysyniad o reoleiddio cyffyrddiad cywir.² Rydym yn monitro datblygiadau polisi yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol ac yn darparu cyngor i lywodraethau ac eraill ar faterion yn ymwneud â phobl yn gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym hefyd yn cyflawni rhai comisiynau rhyngwladol i ehangu ein dealltwriaeth o reoleiddio ac i hyrwyddo diogelwch o ran mudoedd y gweithlu iechyd a gofal.

Rydym yn ymroddedig i fod yn annibynnol, diduedd, teg, hygyrch a chyson. Ceir rhagor o wybodaeth am ein gwaith a dull o weithredu ar www.professionalstandards.org.uk.

¹ Roedd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael ei adnabod yn flaenorol fel y Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd

² *Right-touch regulation revised (Hydref 2015)*. Ar gael ar www.professionalstandards.org.uk/policy-and-research/right-touch-regulation

Cynnwys

1. Cwmpas yr ymgynghoriad hwn	1
2. Cyflwyniad	1
3. Sut fyddwn ni'n ailasesu achrediad pob blwyddyn	2
4. Ein cynigion ar gyfer y dyfodol	2
5. Proses asesu	3
6. Penderfyniadau asesu	4
7. Amodau, cyfarwyddiadau, pwyntiau dysgu	6
8. Crynodeb o gwestiynau a sut i ymateb	7
9. Cyfrinachedd gwybodaeth	8
10. Adborth ar y broses ymgynghori	9
11. Atodiad	10

1. Cwmpas yr ymgynghoriad hwn

- 1.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn sefydlu ein cynigion i newid sut fyddwn yn asesu ceisiadau i adnewyddu achrediad cofrestrau. Rydym yn cynnig cyflwyno newidiadau i sicrhau bod y broses yn fwy seiliedig ar risg, targedig a chymesur.
- 1.2 Nid ydym yn cynnig gwneud newidiadau i'r broses achredu gychwynol ar hyn o bryd.

2. Cyflwyniad

- 2.1 Mae'r rhaglen Cofrestrau Achrededig wedi bod yn weithredol ers dros bedair blynedd, gyda mân newidiadau i'r rhaglen a'r *Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig* yn digwydd yn y cyfnod hwnnw.
- 2.2 Cyflwynir y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer ein cyfrifoldebau yn y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012, sy'n rhoi'r awdurdod i ni osod safonau ar gyfer cofrestrau gwirfoddol gweithwyr iechyd a gofal, ac achredu unrhyw rai sy'n eu bodloni. Cyflwynir ein safonau yn ein *Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig*. Rhaid i gofrestrau arddangos ei bod yn bodloni ein holl Safonau er mwyn cael eu hachredu.
- 2.3 Ein nod yw cyflawni ein hasesiadau yn unol â'n gwerthoedd. Rydym yn ymroddedig i fod:
 - Â ffocws ar les y cyhoedd
 - Yn annibynnol
 - Yn deg
 - Yn dryloyw
 - Yn gymesur.
- 2.4 Yn fwy diweddar, mae rhai Cofrestrau Achrededig wedi awgrymu y gellid gwneud newidiadau i'r broses adolygiad blynyddol i wneud hyn yn fwy cymesur ac i ffocysu ar feysydd risg.
- 2.5 Rydym wedi arsylwi bod pob ymgeisydd newydd wedi gorfod gwneud newidiadau i gyflawni neu gynnal ein Safonau yn ystod y ddwy i dair blynedd gyntaf o achrediad. Wedi hynny, mae'r mwyafrif y cwblhau'r broses adolygiad blynyddol yn llwyddiannus a gydag ychydig iawn o amodau.
- 2.6 Rydym yn cydnabod felly bod y rhaglen wedi cyrraedd lefel o aeddfedrwydd ble mae newidiadau yn bosibl, a gellid dadlau yn angenrheidiol, i sicrhau ei fod yn parhau i arwain y blaen fel model ar gyfer sicrwydd seiliedig ar risg.

3. Sut fyddwn ni'n ailasesu achrediad pob blwyddyn

- 3.1 Ar hyn o bryd, er bod ein prosesau yn caniatáu ar gyfer amrywiaethau yn y broses asesu adolygiad blynyddol, yn ymarferol mae wedi tueddu i fod yn unfurf.
- 3.2 Mae ein Safonau yn cwmpasu 11 o feysydd, yn cynnwys ymroddiad i ddiogelu'r cyhoedd, llywodraethu, safonau ar gyfer cofrestryddion, addysg a hyfforddiant a chwynion. Mae'r 11 Safon yn creu sylfaen ein hasesiad.
- 3.3 Pob blwyddyn, mae'r cofrestrau yn dychwelyd ffurflen gais ble maent yn datgan p'un a ydynt yn parhau i fodloni'r Safonau ac os gwnaethpwyd unrhyw newidiadau arwyddocaol. Maent yn ein darparu gydag asesiad risg wedi ei ddiweddarau ac yn rhoi gwybod i ni am unrhyw wrandawiadau a chwynion. Yn ystod y flwyddyn, byddwn yn casglu gwybodaeth ynghylch y gofrestr gan amrywiaeth o ffynonellau.
- 3.4 Pan fydd yn cyrraedd yr amser i adnewyddu achrediad cofrestr, byddwn yn cyhoeddi galwad am wybodaeth ac yn gofyn i randdeiliaid rannu eu profiad o'r gofrestr gyda ni. Rydym hefyd yn adolygu gwefan y gofrestr i weld pa mor hygyrch a hawdd ydi hi i ganfod gwybodaeth berthnasol o safbwynt aelod o'r cyhoedd yn cael mynediad at wefan cofrestr am y tro cyntaf. Rydym yn gofyn cwestiynau atodol i'r gofrestr a hefyd efallai'n cyflawni ymweliad safle, gan gynnwys arsylwi neu adolygu ffeiliau cwynion os nad ydym eisoes wedi gwneud hynny.
- 3.5 Efallai y byddwn hefyd yn penderfynu ffocysu ar faes penodol yn y Safonau, neu ar y cofrestrau i gyd. Er enghraifft, eleni rydym yn canolbwyntio ar ymdrin â chwynion ar gyfer pob cais i adnewyddu.
- 3.6 Wedi i ni gasglu'r wybodaeth hon, rydym yn ei chyflwyno mewn adroddiad i Banel Achredu, sy'n penderfynu os yw'r gofrestr yn dal i fodloni ein Safonau. Galli: adnewyddu achrediad; gyflwyno amodau, cyfarwyddiadau a phwyntiau dysgu; atal dros dro; neu wrthod achrediad.

4. Ein cynigion ar gyfer y dyfodol

- 4.1 Rydym yn cynnig cyflwyno newidiadau i'n prosesau i amrywio ein hasesiadau yn ôl risg.
- 4.2 Byddwn yn cyflwyno cam newydd, yn seiliedig ar dystiolaeth a ystyriwyd gan y tîm achredu, i benderfynu pa fath o asesiad y byddwn yn ei gyflawni. Bydd un cymedrolwr (gweler yr adran 'Penderfyniadau asesiad') yn penderfynu ar dri chanlyniad:
 - Dim asesiad pellach
 - Adolygiad targedig
 - Adolygiad manwl.

5. Proses asesu

- 5.1 Bydd y broses ar gyfer ymgeisio am adnewyddu achrediad yn newid, er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar gasglu tystiolaeth yn weithredol gan y tîm Achredu yn ystod y flwyddyn. Bydd y tîm yn casglu tystiolaeth trwy gydol y flwyddyn gan ffynonellau cyhoeddus, trwy wiriadau a samplu. Bydd hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:
- Samplu cyfathrebu allanol, yn cynnwys cylchlythyrau, cyfryngau cymdeithasol a deunyddiau eraill
 - Adolygu cofnodion cyfarfodydd Bwrdd³
 - Adolygu cwynion, sylwadau a chanmoliaeth a dderbyniwyd
 - Gwirio cofnodion ar gofrestrau
 - Monitro adroddiadau gan gyrff eraill yn cynnwys yr Awdurdod Safonau Hysbysebu
 - Adolygu adroddiadau blynyddol, yn cynnwys y rhai a gynhyrchir gan Fyrddau neu gyrff goruchwyllo eraill
 - Monitro newidiadau i'r sefydliadau sy'n cynnal y cofrestrau.
- 5.2 Bydd y tîm Achredu yn llenwi ffurflen adolygiad blynyddol ar gyfer pob cofrestr yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd i law. Yna bydd pob cofrestr yn gyfrifol am ddarparu unrhyw ddiweddariadau o'r flwyddyn nad ydynt wedi eu cynnwys yn nhystiolaeth y tîm Achredu. Bydd hyn yn symud ffocws oddi wrth y tîm Achredu o ran casglu tystiolaeth yn ystod y flwyddyn, od yn parhau i roi cyfrifoldeb ar y cofrestrau ar adeg adnewyddu i ddod ag unrhyw faterion sy'n effeithio ar gydymffurfriad â'n Safonau, yn cynnwys datblygiadau, cyflawniadau neu broblemau, i'n sylw.
- 5.3 Byddwn yn parhau i wahodd rhanddeiliaid i rannu eu profiadau o'r gofrestr, fel y gwnawn nawr. Bydd y tîm Achredu yn dal gafael ar y cyfle i ofyn am ragor o wybodaeth gan gofrestrwr yn rhan o'r broses adnewyddu flynyddol.
- 5.4 Yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddadansoddir gan y tîm Achredu, bydd cymedrolwr yn penderfynu ar un o'r tri chanlyniad canlynol:
- **Dim asesiad pellach.** Ble bydd y cymedrolwr yn penderfynu bod y gofrestr yn dal i fodloni'r holl Safonau, ni chyflawnir asesiad pellach. Efallai y bydd angen rhagor o wybodaeth ar ben yr hyn a ddarperir yn ffurflen ar adolygiad blynyddol cyn dod i'r penderfyniad hwn
 - **Adolygiad targedig.** Os bydd gan y cymedrolwr bryderon nad yw'r gofrestr yn bodloni hyd at ddwy Safon, gall gyfarwyddo'r tîm Achredu i gyflawni adolygiad targedig. Gall hyn gynnwys adolygiad o ddogfennaeth bellach, cyfweiliadau gyda staff y gofrestr, ymweliad safle, neu gyfuniad o'r gweithgareddau hyn
 - **Adolygiad manwl.** Os bydd gan y cymedrolwr bryderon ynghylch perfformiad y gofrestr sy'n rhychwantu tri neu fwy o Safonau, gall

³ Sylwer: os nad oes cofnodion ar gael ar wefan y gofrestr, yna bydd y tîm yn gofyn amdanynt.

gyfarwyddo'r tîm Achredu i gyflawni adolygiad manwl. Gall hyn gynnwys adolygiad o ddogfennaeth bellach, cyfweiliadau gyda staff y gofrestr, ymweliad safle, neu gyfuniad o'r gweithgareddau hyn.

- 5.5 Mae'r atodiad yn cynnig siart llif yn amlinellu'r prosesau.
- 5.6 Os nad oes adolygiad manwl wedi ei gyflawni wedi tair blynedd, mae'r Awdurdod yn neilltuo'r hawl i wneud hynny yn ôl ei ddisgresiwn.
- 5.7 Nid oes unrhyw ran o'r newidiadau hyn yn effeithio ar allu'r Awdurdod i wneud ymholiadau o fewn achrediad y flwyddyn gyfredol, os yw'n pryderu na fydd safon yn cael ei bodloni. Er enghraifft:
 - Achosion o niwed sy'n dynodi diffyg cydymffurfiad gydag un neu fwy o'r safonau yn debygol o gyfaddawdu ar allu cofrestr i ddiogelu'r cyhoedd, neu sy'n debygol o danseilio hyder y cyhoedd yn y gofrestr
 - Gwybodaeth gredadwy yn dynodi nad yw un neu fwy o'r Safonau wedi eu bodloni ac sydd, ym marn y tîm, angen ymchwilio
 - Torri'r cytundeb trwyddedu nod masnach neu fethiannau cyfathrebu difrifol eraill sy'n debygol o danseilio hyder y cyhoedd yn y gofrestr neu niweidio enw da'r rhaglen.
- 5.8 Nid ydym yn rhagweld y bydd y newidiadau arfaethedig i'r broses asesu adolygiad blynyddol yn effeithio'n negyddol ar ddiogelu'r cyhoedd.

Mae'r prosesau newydd wedi eu cynllunio i gynyddu'r pwyslais ar y dystiolaeth a gesglir gan yr Awdurdod ac i wella ein hystwythder wrth asesu sefydliadau. Bydd y baich asesu ar y cofrestrau hynny sy'n arddangos eu bod yn bodloni'r Safonau wedi eu lleihau. Rhagwelwn y bydd y cofrestrau newydd yn parhau i dderbyn sylw agos yn ystod y ddwy i dair blynedd gyntaf o achrediad gan fod profiad wedi dangos bod y mwyafrif yn dal i wneud gwelliannau yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, wrth i gofrestrau ddod yn fwy profiadol, efallai y bydd yr angen am graffu mor fanwl yn lleihau.

Cwestiynau ymgynghori

C1: Beth yw eich barn ar eu cynnig i gyflwyno cam cychwynol i benderfynu ar y math o asesiad y byddwn yn ei gyflawni, yn cynnwys dim asesiad pellach? Os nad ydych yn cytuno, rhowch wybod pam. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau pellach, nodwch nhw.

C2: Beth yw eich barn ar y newidiadau arfaethedig i broses asesu'r adolygiad blynyddol? Os nad ydych yn cytuno, rhowch wybod pam. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau pellach, nodwch nhw.

C3: Beth ydych chi'n meddwl fydd effaith y newidiadau arfaethedig, gan gynnwys ar ddiogelu'r cyhoedd ac ar Gofrestrau Achrededig fel sefydliadau?

6. Penderfyniadau asesu

- 6.1 Ar hyn o bryd, mae Paneli Achredu yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar y mwyafrif helaeth o ganlyniadau achredu, yn cynnwys bodloni amodau. Credwn

fod hyn yn ychwanegu amser a chostau diangen, ac felly rydym yn cynnig newid hyn fel y nodir isod ac yn nhabl 1:

- Ble mae'r tîm Achredu yn ystyried bod cofrestr yn bodloni'r holl Safonau, byddant yn cyfeirio'r gofrestr at gymedrolwr. Gall y cymedrolwr adnewyddu achrediad neu adnewyddu achrediad gydag argymhellion (gweler isod). Os nad yw cymedrolwr yn fodlon bod y gofrestr yn bodloni'r Safonau, gall ofyn i'r tîm Achredu geisio rhagor o wybodaeth, neu gyflawni asesiad targedig neu fanwl
- Ble mae'r tîm Achredu yn ystyried nad yw cofrestr yn bodloni un neu fwy o'r Safonau, byddant yn ceisio cymeradwyaeth gan y cymedrolwr i gyflawni adolygiad targedig neu fanwl. Bydd Paneli Achredu yn cael eu cynnull i bennu canlyniadau adolygiadau targedig neu fanwl. Gall y Panel benderfynu adnewyddu achrediad, adnewyddu achrediad gydag amodau ac/neu argymhellion, atal achrediad dros dro, neu ddiddymu achrediad.

6.2 Os nad yw cofrestr yn hapus gyda phenderfyniad y cymedrolwr neu Banel Achredu, gall apelio yn erbyn y penderfyniad dan ein gweithdrefn Apeliadau.

Tabl 1

Penderfyniad adolygiad blynyddol	Cymedrolwr arfaethedig	Penderfynydd cyfredol
Penderfyniad cychwynnol ar a yw'r holl Safonau wedi eu bodloni ac os oes angen asesiad	Cyfarwyddwr	Ddim yn berthnasol
Cyflwyno achrediad heb asesiad pellach	Cyfarwyddwr	Panel Achredu
Cyflwyno achrediad yn dilyn adolygiad targedig	Panel Achredu	Panel Achredu
Cyflwyno achrediad yn dilyn adolygiad manwl	Panel Achredu	Panel Achredu
Atal achrediad dros dro	Panel Achredu	Panel Achredu
Diddymu achrediad	Panel Achredu	Panel Achredu
Cydymffurfio ag amodau	Cyfarwyddwr	Panel Achredu
Cwblhau argymhellion	Pennaeth Achredu	Panel Achredu
Apelio	Panel Apêl	Panel Apêl

Cwestiynau ymgynghori

C4: Beth yw eich barn ar y newidiadau arfaethedig i wneud penderfyniadau? Os nad ydych yn cytuno, rhowch wybod pam. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau pellach, nodwch nhw.

7. Amodau, cyfarwyddiadau, pwyntiau dysgu

- 7.1 Ar hyn o bryd gall Paneli Achredu gyhoeddi tri lefel o ofynion i gofrestrau: amodau, cyfarwyddiadau a phwyntiau dysgu. Mae'r diffiniadau o'r rhain fel a ganlyn:
- Amod: newid sy'n ofynnol er mwyn sicrhau neu gynnal achrediad
 - Cyfarwyddyd: gweithredoedd a fyddai'n gwella ymarfer, ond nad ydynt yn effeithio ar gydymffuriad â'r Safonau ac y mae'r Panel yn gofyn iddynt gael eu gweithredu ac i fod yn fodlon o weithrediad priodol o fewn cyfnod amser penodol
 - Pwynt Dysgu: gweithredoedd a fyddai'n fanteisiol i weithrediad y gofrestr, ac y byddai eu gweithrediad yn cael ei wirio yn ystod adolygiad blynyddol achrediad.
- 7.2 Rydym yn cynnig uno cyfarwyddiadau a phwyntiau dysgu i un categori o'r enw 'argymhellion'.
- 7.3 Rydym hefyd yn cynnig ychwanegu categori arall i amlinellu meysydd ymarfer nodedig ble mae cofrestrau'n perfformio'n arbennig o dda.
- 7.4 Mae'r diffiniadau arfaethedig fel a ganlyn:
- Amod: newid sy'n ofynnol o fewn cyfnod amser penodedig er mwyn sicrhau neu gynnal achrediad
 - Argymhelliad: gweithredoedd a fyddai'n gwella ymarfer ac yn fuddiol i weithrediad y gofrestr, ond nad ydynt yn effeithio ar gydymffuriad â'r Safonau. Dylid darparu tystiolaeth o weithrediad priodol o fewn cyfnod amser penodedig
 - Ymarfer nodedig: meysydd sy'n arloesol ac/neu yn arddangos dulliau gweithio hynod effeithiol.
- 7.5 Cyhoeddir ymarfer nodedig ar dudalennau'r gofrestr ar wefan yr Awdurdod. Rhagwelir y bydd ymarfer nodedig yn ychwanegu ar ddysgu a rennir ar draws y cofrestrau.
- 7.6 Credwn y bydd y newidiadau uchod yn ychwanegu eglurder ac yn caniatáu ar gyfer gwell amlygiad o waith positif gan y cofrestrau.

Cwestiynau ymgynghori

C5: Beth yw eich barn ar ddisodli'r pwyntiau dysgu a chyfarwyddiadau gydag 'argymhellion', ac ychwanegu 'ymarfer nodedig'? Os nad ydych yn cytuno, rhowch wybod pam. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau pellach, nodwch nhw.

C6: A oes unrhyw agweddau o'r cynigion yn y papur hwn y teimlwyd allai arwain at driniaeth wahaniaethol neu effaith ar grwpiau neu unigolion yn seiliedig ar y nodweddion canlynol, a ddiffiniwyd dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010?

- Oed
- Ailbennu rhywedd

- Ethnigrwydd
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Tueddfryd rhywiol
- Arall (nodwch)

Os rhoesoch ateb cadarnhaol i unrhyw un o'r uchod, esboniwch pam a beth ellid gwneud i newid hyn.

C7: Rhwch unrhyw sylwadau pellach sydd gennych chi ar y cynigion yn y ddogfen hon.

8. Crynodeb o gwestiynau a sut i ymateb

- 8.1 **C1:** Beth yw eich barn ar eu cynnig i gyflwyno cam cychwynnol i benderfynu ar y math o asesiad y byddwn yn ei gyflawni, yn cynnwys dim asesiad pellach? Os nad ydych yn cytuno, rhwch wybod pam. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau pellach, nodwch nhw.
- 8.2 **C2:** Beth yw eich barn ar y newidiadau arfaethedig i broses asesu'r adolygiad blynyddol? Os nad ydych yn cytuno, rhwch wybod pam. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau pellach, nodwch nhw.
- 8.3 **C3:** Beth ydych chi'n meddwl fydd effaith y newidiadau arfaethedig, gan gynnwys ar ddiogelu'r cyhoedd ac ar Gofrestrau Achrededig fel sefydliadau?
- 8.4 **C4:** Beth yw eich barn ar y newidiadau arfaethedig i wneud penderfyniadau? Os nad ydych yn cytuno, rhwch wybod pam. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau pellach, nodwch nhw.
- 8.5 **C5:** Beth yw eich barn ar ddisodli'r pwyntiau dysgu a chyfarwyddiadau gydag 'argymhellion', ac ychwanegu 'ymarfer nodedig'? Os nad ydych yn cytuno, rhwch wybod pam. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau pellach, nodwch nhw.
- 8.6 **C6:** A oes unrhyw agweddau o'r cynigion hyn y teimlwch allai arwain at driniaeth wahaniaethol neu effaith ar grwpiau neu unigolion yn seiliedig ar y nodweddion canlynol, a ddiffiniwyd dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010?
- Oed
 - Ailbennu rhywedd
 - Ethnigrwydd
 - Anabledd
 - Beichiogrwydd a mamolaeth
 - Hil

- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Tueddfryd rhywiol
- Arall (nodwch)

Os rhoesoch ateb cadarnhaol i unrhyw un o'r uchod, esboniwch pam a beth ellid gwneud i newid hyn.

C7: Rhwng unrhyw sylwadau pellach sydd gennych chi ar y cynigion yn y ddogfen hon.

- 8.7 Dylai ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ateb y cwestiynau a gyflwynwyd a'u hanfon at y tîm Achredu (accreditationteam@professionalstandards.org.uk) erbyn 16 Mehefin 2016. Gellir hefyd postio ymatebion i'r cyfeiriad canlynol:

Accreditation team

Awdurdod Safonau Proffesiynol

157-197 Buckingham Palace Road

Llundain

SW1W 9SP

- 8.8 Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu os ydych chi angen fersiwn hygyrch o'r ddogfen hon, cysylltwch â'r Tîm Achredu ar 020 7389 8037 neu trwy e-bost at accreditationteam@professionalstandards.org.uk.
- 8.9 Bydd ymatebion yn cael eu dadansoddi a'u defnyddio i hysbysu'r newidiadau i'r rhaglen. Bydd angen sicrhau cymeradwyaeth Bwrdd yr Awdurdod cyn gweithredu unrhyw newidiadau. Bydd cofrestru yn cael gwybod am unrhyw newidiadau cyn eu gweithredu.

9. Cyfrinachedd gwybodaeth

- 9.1 Byddwn yn rheoli'r wybodaeth a ddarparwch mewn ymateb i'r papur ymgynghori hwn yn unol â'n polisiau diogelwch gwybodaeth sydd ar gael ar ein gwefan (www.professionalstandards.org.uk).
- 9.2 Gellir cyhoeddi neu ddatgelu unrhyw wybodaeth a dderbyniwn, yn cynnwys gwybodaeth bersonol yn unol â chyfundrefnau mynediad i wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r Ddeddf Diogelu Data 1998 a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).
- 9.3 Os ydych am i'r wybodaeth a ddarparwch aros yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol fod yna God Ymarfer dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag o ac sy'n delio, ymysg pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd. O ganlyniad, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam yr ydych yn ystyried fod yr wybodaeth yr ydych wedi darparu i ni yn gyfrinachol.
- 9.4 Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd dan bob

amgylchiad. Ni ystyrir ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhrychir gan eich system TG, ynddo'i hun, i fod yn rhwymol i'r Awdurdod Safonau Proffesiynol.

- 9.5 Bydd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a gan amlaf bydd hyn yn golygu na ddatgelir eich data personol i drydydd parti.

10. Adborth ar y broses ymgynghori

- 10.1 Os oes gennych unrhyw bryderon neu sylwadau i'w gwneud parthed ein proses ymgynghori, cysylltwch â:

Christine Braithwaite, Director of Standards and Policy

Professional Standards Authority

157-197 Buckingham Palace Road


Llundain SW1W 9SP

Ffôn: 020 7389 8030

E-bost: christine.braithwaite@professionalstandards.org.uk

11. Atodiad

11.1 Siart llif yn amlinellu'r broses adolygiad blynyddol newydd



Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

157-197 Buckingham Palace Road
Llundain SW1W 9SP

Ffôn: **020 7389 8030**

Ffacs: **020 7389 8040**

E-bost: **info@professionalstandards.org.uk**

Gwefan: **www.professionalstandards.org.uk**

© Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol
ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol [Month Year]

